# Croeso i Gymru



## CANLLAW I FYFYRWYR

## AR GYFER ROWNDIAU TERFYNOL CENEDLAETHOL WORLDSKILLS UK 2025



# TABL CYNNWYS


| | |
|---|---|
| GAIR O GROESO | 03 |
| EICH TAITH GYMREIG | 04 |
| LLEOLIADAU | 05 |
| CYSYLLTWCH Â NI | 07 |
| IECHYD A LLESIANT | 09 |
| GWYBODAETH AM GYMRU | 11 |
| FFEITHIAU DIFYR AM GYMRU | 13 |
| CYMRU, GWLAD Y CESTYLL | 15 |
| TRADDODIADAU CYMREIG | 17 |
| BWYD CYMREIG | 19 |
| GWYBODAETH YMARFEROL | 21 |






# CROESO







Croeso i Gymru! Gwlad y dreigiau a'r cestyll, gwlad o dirweddau godidog, a'r wlad sy'n falch o gynnal Rowndiau Terfynol Cenedlaethol WorldSkills UK 2025!

Wrth i chi gychwyn ar y daith gyffrous hon i gynrychioli eich gwlad yn Rowndiau Terfynol Cenedlaethol WorldSkills UK 2025, bydd y canllaw hwn yn eich helpu i wneud y gorau o'ch cyfnod yng Nghymru. O wybodaeth hanfodol i gipolwg ar ddiwylliant, rydyn ni'n gobeithio y bydd yr adnodd hwn yn cyfoethogi eich profiad wrth i chi arddangos eich doniau.

# GAIR O GROESO

**ANNWYL GYSTADLEUWYR**
Rydyn ni'n falch iawn o'ch croesawu chi i Gymru ar gyfer Rowndiau Terfynol Cenedlaethol WorldSkills UK 2025. Y cystadlaethau hyn yw'r uchafbwynt o ran rhagoriaeth sgiliau, ac rydych chi – y cystadleuwyr – yn ymgorffori'r ddawn, yr ymroddiad a'r arloesedd a fydd yn llywio ein dyfodol.

Fel gwlad, mae ethos gwaith Cymru a'i chyfraniad at yr economi genedlaethol yn hanesyddol. Ond rydyn ni'n fwy na dim ond pyllau glo a chwareli llechi. Mae gennym dreftadaeth gyfoethog o grefftwriaeth sy'n dyddio'n ôl ganrifoedd, ac enw da sy'n tyfu yn sector technoleg arloesol y byd sydd ohoni. Er mai cenedl fach ydyn ni, mae ein huchelgais wedi bod yn enfawr erioed.


Yn ystod eich arhosiad, gobeithio y byddwch chi'n profi cyffro'r gystadleuaeth a'n lletygarwch cynnes Cymreig.

Mae Rowndiau Terfynol Cenedlaethol WorldSkills UK yn arbennig o bwysig i ni yma yng Nghymru wrth i ni arddangos ein hymrwymiad i addysg alwedigaethol a datblygu sgiliau ar ein tomen ein hunain am y tro cyntaf erioed. Mae'n anrhydedd cael croesawu cystadleuwyr o bob cwr o'r DU i ddathlu rhagoriaeth sgiliau sy'n ein huno i gyd.

Pob lwc yn eich cystadlaethau!

**Jack Sargeant**
Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol


**Vikki Howells**
Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch







# EICH TAITH GYMREIG




Mae'r ffaith eich bod yn cymryd rhan yn Rowndiau Terfynol Cenedlaethol WorldSkills UK 2025 yn eich gwneud chi'n rhan o hanes Cymru. Rydyn ni'n eich gwahodd chi i fanteisio i'r eithaf ar bob agwedd ar eich cyfnod yma – y cystadlu, y diwylliant, a'r cysylltiadau y byddwch chi'n eu ffurfio â gweithwyr proffesiynol medrus eraill o bob cwr o'r DU.

Cofiwch eich bod, y tu hwnt i fod yn gystadleuwyr, yn genhadon i'ch gwledydd ac i ddyfodol proffesiynau medrus. Bydd y cydberthnasau a gaiff eu ffurfio yn ystod WorldSkills yn aml yn para am oes ac yn creu rhwydweithiau o ragoriaeth sydd o fudd i bob un ohonom.

Rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at eich gweld chi'n arddangos eich sgiliau rhagorol, ac yn gobeithio y bydd eich cyfnod yng Nghymru yn rhoi atgofion i chi y byddwch chi'n eu trysori am amser maith ar ôl i'r medalau gael eu cyflwyno.

**Croeso i Gymru – Welcome to Wales**





# ROWNDIAU TERFYNOL CENEDLAETHOL WORLDSKILLS UK 2025

## LLEOLIADAU


Caiff cystadlaethau Rowndiau Terfynol Cenedlaethol WorldSkills UK 2025 eu cynnal mewn nifer o leoliadau, sydd i gyd wedi cael eu dewis er mwyn arddangos gwahanol agweddau ar Gymru a bodloni gofynion amrywiol y cystadlaethau.

- Coleg Penybont – Campws Pencoed
- Coleg Caerdydd a'r Fro – Campws Canol y Ddinas
- Coleg Gwent – Campws Casnewydd
- Prifysgol De Cymru (Caerdydd)
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Abertawe)

Mae pob lleoliad yn gwbl hygyrch ac yn cynnwys cyfleusterau o'r radd flaenaf.

Os ydych chi'n gwybod am unrhyw un sy'n dymuno ymweld â lleoliadau'r gystadleuaeth, sicrhewch eu bod yn cofrestru fel ymwelydd ymlaen llaw, gellir gwneud hynny drwy www.worldskillsuk.org/skills/worldskills-uk-national-finals-2025-visitors

**Cofrestrwch ar gyfer y darllediad byw yn:**
www.worldskillsuk.org/skills/national-finals-2025



# CYSYLLTWCH Â NI

Y Cyfryngau Cymdeithasol

Rydych chi wedi cyrraedd Rowndiau Terfynol Cenedlaethol WorldSkills UK 2025, ac rydych chi ar fin rhoi eich sgiliau ar brawf am un tro olaf. Beth os mai'r cyfan y mae angen i chi ei wneud i ysbrydoli taith anhygoel rhywun arall... yw rhannu eich un chi? Eich lluniau, eich uchafbwyntiau, eich stori. Efallai mai nhw fydd y sbardun a fydd yn helpu rhywun i gymryd ei gam cyntaf.

Os byddwch chi'n rhannu eich dathliadau a'r atgofion y byddwch chi'n eu creu dros yr ychydig ddiwrnodau nesaf, tagiwch eich hyfforddwr, eich coleg neu'ch darparwr, eich ffrindiau a'ch teulu ac, wrth gwrs – ni!

**Y TU ÔL I'R LLENNI**
Os ydych chi wedi bod yn gwneud y gwaith caled... yn ymarfer, yn dysgu, ac yn gwthio eich hun... byddem wrth ein bodd yn gweld hynny.

**CYHOEDDIADAU NEWYDDION MAWR**
Y ffaith eich bod yn cychwyn ar eich taith i Gymru efallai, neu'n cwblhau eich tasg olaf yn yr arena.

**YN YSTOD Y DIGWYDDIAD**
I ffwrdd â ni! Os byddwch chi'n cael tynnu llun gyda'ch tîm yn perfformio ar eich gorau – rhannwch ef!

**CANLYNIADAU A DATHLIADAU**
Nid dim ond ennill sy'n bwysig yn y cystadlaethau hyn... ond, os byddwch chi'n fuddugol, am wefr! Os byddwch chi'n diolch i bawb sydd wedi eich cefnogi chi, byddem wrth ein bodd yn cael gwybod.

**@ISEinWales • @worldskillsuk**
**@teamWales • @WorldSkillsUKW**







# IECHYD A LLESIANT

Eich llesiant chi yw ein blaenoriaeth ni yn ystod Rowndiau Terfynol Cenedlaethol WorldSkills UK 2025.

## PEIDIO Â CHYNHYRFU DAN BWYSAU

Mae teimlo'n nerfus cyn neu yn ystod cystadleuaeth yn gwbl normal — bydd hyd yn oed y sêr mwyaf yn teimlo felly weithiau! Y gyfrinach yw dysgu sut i reoli'r nerfau hynny er mwyn sicrhau na fyddan nhw'n eich rheoli chi. Gall anadlu'n ddwfn, hunansiarad cadarnhaol, a chanolbwyntio ar y presennol eich helpu i beidio â chynhyrfu ac i deimlo'n hyderus ac yn barod i berfformio ar eich gorau.



### 1. Anadlwch yn Ddwfn

Defnyddiwch y dechneg 4-7-8:
Anadlwch i mewn am 4 eiliad, daliwch eich anadl am 7, ac anadlwch allan am 8. Bydd hyn yn arafu cyfradd curiad eich calon ac yn eich helpu i deimlo mewn mwy o reolaeth.

### 2. Dilynwch yr Un Drefn Cyn Cystadlu Bob Tro

Gwrandewch ar eich hoff gerddoriaeth sy'n eich tawelu, ailadroddwch fantra cadarnhaol, neu gwnewch ymarferion cynhesu byr. Gall arferion cyfarwydd eich helpu i ymlacio a lleihau pryder.

### 3. Dychmygwch Lwyddiant

Caewch eich llygaid a dychmygwch eich hun yn perfformio'n hyderus ac yn ddigynnwrf. Gall dychmygu llwyddiant dwyllo eich ymennydd i deimlo'n fwy parod.

### 4. Siaradwch â Chi'ch Hun fel Hyfforddwr

Yn lle gofyn “Beth os gwna i lanast o bethau?”, dywedwch “Rwyf wedi ymarfer ar gyfer hyn – rwy'n gallu gwneud hyn.” Mae hunansiarad cadarnhaol yn rhoi hwb i hyder a ffocws.

### 5. Symudwch Eich Corff

Gwnewch ychydig o ymestyniadau ysgafn neu ysgydwch eich breichiau a'ch coesau. Bydd hyn yn helpu i ryddhau egni nerfus ac yn helpu eich corff i ymlacio.

## GWASANAETHAU MEDDYGOL

- Bydd cymorth meddygol ar gael ym mhob un o'r lleoliadau cystadlu
- Caiff manylion cyswllt mewn argyfwng eu rhoi pan fyddwch chi'n cyrraedd











# GWYBODAETH AM **GYMRU**

Gwlad y Ddraig Goch

Mae Cymru yn un o bedair gwlad sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig. Gyda phoblogaeth o ychydig dros 3 miliwn o bobl, mae ein gwlad fach ond nerthol yn enwog am ei thirweddau godidog, ei hanes cyfoethog, a'i diwylliant bywiog.

## FFEITHIAU ALLWEDDOL

- **Prifddinas:** Caerdydd
- **Ieithoedd swyddogol:** Cymraeg a Saesneg
- **Poblogaeth:** 3.1 miliwn
- **Symbolau cenedlaethol:** Y ddraig goch, cenhinen Bedr, a chenhinen
- **Daearyddiaeth:** Mynyddoedd yn y gogledd (gan gynnwys Eryri) a chymoedd o fryniau a phantiau yn y de.

## HANES O ARLOESI

Mae gan Gymru dreftadaeth ddiwydiannol falch, gan iddi arwain y byd mewn mwyngloddio glo a chynhyrchu dur ar un adeg. Heddiw, mae Cymru'n croesawu diwydiannau'r dyfodol gan gynnwys ynni adnewyddadwy, gweithgynhyrchu uwch, a thechnoleg ddigidol – llawer o'r un meysydd y byddwch chi'n cystadlu ynddynt yn ystod WorldSkills.

## RHAGORIAETH ADDYSGOL

Mae gan Gymru draddodiad addysgol cadarn, gyda phedair prifysgol yn ymddangos yn gyson mewn rhestrau o sefydliadau gorau'r DU. Mae ein system addysg alwedigaethol yn cysylltu dysgwyr â diwydiant drwy brentisiaethau – gan greu llwybrau tuag at lwyddiant, yn debyg iawn i'r rhai rydych chi wedi'u dilyn i gyrraedd WorldSkills.







# FFEITHIAU DIFYR **AM GYMRU**

- **Mae gan Gymru fwy o gestyll fesul metr sgwâr na'r un wlad arall yn y byd!** Mae mwy na **600** o gestyll ledled y wlad.
- **Yng Nghymru mae'r enw lle hiraf yn Ewrop!** Rhowch gynnig ar ynganu Llanfair-pwllgwyngyll-gogery-chwyrndrobwll-llantysilio-gogogoch. Pentref ar Ynys Môn ydyw!
- **Pobl o Gymru a ddyfeisiodd y microffon modern.** Gwnaeth gwyddonydd o Gymru o'r enw David Edward Hughes ddatblygu fersiwn gynnar ohono yn y 1870au.
- **Yng Nghymru y gwelwyd arwyddion ffyrdd swyddogol mewn dwy iaith am y tro cyntaf erioed.** Ers 1967, mae pob arwydd yn ymddangos yn y Gymraeg a'r Saesneg!
- **Cawl yw saig genedlaethol Cymru.** Mae'n llawn cig, tatws a llysiau, ac yn faethlon iawn. Mae'n berffaith ar ddiwrnod oer!
- **Mae draig goch ar faner Cymru.** Yn ôl y chwedl, y Brenin Arthur oedd y cyntaf i'w defnyddio fel symbol!
- **Mae mwy o ddefaid na phobl yng Nghymru!** Mae tua **thair gwaith** yn fwy o ddefaid na phobl.
- **Yng Nghymru mae'r weiren wib gyflymaf yn y byd!** Yn Zip World yn y Gogledd, gallwch hedfan ar gyflymder o 100mya dros chwarel.
- **Mae gan Gymru ei harcharwr ei hun!** Cymeriad mewn llyfrau comic yw Captain Cymru, ac mae'n ymladd dros gyfiawnder yng Nghymru.

### WYDDECH CHI?

Mae cyrsiau Cymraeg ar gael am ddim i bobl rhwng 18 a 25 oed drwy raglen Dysgu Cymraeg.





# Y GYMRAEG

Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o hunaniaeth Cymru, ac mae tua 27% o'r boblogaeth yn ei siarad. Mae pob arwydd cyhoeddus yn ymddangos yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gwneir ymdrechion cadarn i ddiogelu a hyrwyddo'r iaith, ac mae llawer o ysgolion yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd dysgu rhai ymadroddion Cymraeg sylfaenol yn cyfoethogi eich profiad ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan bobl leol:

- Hello **Helo**
- Goodbye **Hwyl fawr**
- Please **Os gwelwch yn dda**
- Thank you **Diolch**
- Yes **Ie**
- No **Na**
- How are you? **Sut wyt ti?**
- I'm fine, thank you **Dw i'n iawn, diolch**
- What's your name? **Beth yw dy enw di?**
- My name is ... **Fy enw i yw...**




Castell Conwy


# CYMRU GWLAD Y CESTYLL

Mae Cymru'n enwog am ei chestyll godidog, ac mae mwy na 600 ohonynt wedi'u gwasgaru ledled y wlad. Yn ystod eich arhosiad, mae'n bosibl y cewch chi gyfle i ymweld â rhai o'r adeiladau ysblennydd hyn:

- **Castell Caerdydd** (Caerdydd): Wedi'i leoli yng nghanol y brifddinas, ac yn cyfuno elfennau Rhufeinig, Normanaidd a Fictoraidd.
- **Castell Caerffili** (Caerffili): Y castell mwyaf yng Nghymru, sydd â muriau consentrig a dyfrffos fawr.
- **Castell Caernarfon** (Gwynedd): Rhan o Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, ac yn enwog am ei bensaernïaeth drawiadol.
- **Castell Conwy** (Conwy): Campwaith canoloesol sydd â golygfeydd godidog dros afon Conwy.
- **Castell Harlech** (Gwynedd): Yn sefyll ar garreg frig, gyda golygfeydd syfrdanol o'r dirwedd.
- **Castell Biwmares** (Ynys Môn): Cyfeirir ato'n aml fel "y castell gorau na chafodd erioed ei adeiladu" gan na chafodd erioed ei gwblhau.
- **Castell Powys** (y Canolbarth): Mae'n unigryw gan fod pobl yn dal i fyw ynddo heddiw, ac mae ganddo erddi hardd a chasgliadau celf.

Cadw, sef asiantaeth sy'n gwarchod adeiladau hanesyddol a henebion, sy'n gofalu am lawer o gestyll Cymru. Mae Cadw'n gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol i Gymru sy'n hygyrch ac yn cael ei ddiogelu'n dda.

Mae pedwar castell wedi'u lleoli ar safleoedd UNESCO (Caernarfon, Conwy, Biwmares a Harlech). Gyda'i gilydd, maent yn cynnig cipolwg hynod ddifyr ar hanes Cymru.





# TRADDODIADAU **CYMREIG**

## Eisteddfod

Eisteddfod Genedlaethol Cymru yw'r ŵyl ddiwylliannol fwyaf yn Ewrop, ac mae'n dathlu diwylliant Cymru, yn enwedig cerddoriaeth, llenyddiaeth, a pherfformio. Caiff ei chynnal bob blwyddyn yn ystod wythnos gyntaf mis Awst, gan ddenu dros 6,000 o gystadleuwyr a 100,000 o ymwelwyr. Cafodd Prifwyl 2025 ei chynnal yn Wrecsam ym mis Awst.

Mae gwreiddiau'r Eisteddfod yn dyddio'n ôl i 1176, pan gafodd y gystadleuaeth farddol gyntaf sydd ar gofnod ei chynnal yng Nghastell Aberteifi. Dechreuodd yr Eisteddfod Genedlaethol fodern yn 1861 yn Aberdâr.

## Dydd Gŵyl Dewi

Caiff Dydd Gŵyl Dewi ei ddathlu ar 1 Mawrth, ac mae'n anrhydeddu nawddsant Cymru. Mynach, abad ac esgob o'r 6ed ganrif a ledaenodd Gristnogaeth ledled Cymru oedd Dewi Sant. Ymhlith y traddodiadau mae gwisgo cennin Pedr neu gennin (symbolau cenedlaethol), gorymdeithiau, digwyddiadau diwylliannol, a mwynhau bwydydd Cymreig traddodiadol.

## Gwisg Genedlaethol Cymru

Yn ystod dathliadau diwylliannol, mae'n bosibl y gwelwch chi bobl yn gwisgo gwisgoedd Cymreig traddodiadol:

**Menywod/Merched:**

- Het Gymreig: Het gorun uchel ddu a gaiff ei gwisgo â chap gwyn oddi tani
- Siôl: Un lliwgar wedi'i gwneud o wlân fel arfer
- Gwisg: Sgert hir, lawn (streipiog neu sgwarog yn aml) gyda bodis ffitiedig
- Pais a ffedog wen

**Dynion/Bechgyn:**

- Het wlân (cap fflat neu het â chantel llydan)
- Gwasgod liwgar
- Clos pen-glin
- Hosanau gwlân
- Cot hir dywyll

## Rygbi – Mwy na Gêm Genedlaethol

Mae rygbi'n fwy na gêm yng Nghymru; mae'n fater o bwys angerddol i'r genedl sy'n rhan ddofn o hunaniaeth ddiwylliannol y wlad:

- Undeb Rygbi Cymru (URC), a ffurfiwyd yn 1881, sy'n goruchwylio'r tîm cenedlaethol a mwy na 320 o glybiau sy'n aelodau ohono
- Stadiwm Principality yng Nghaerdydd yw cartref ysbrydol rygbi Cymru, ac mae'n enwog am ei awyrgylch trydanol
- Mae'r tîm cenedlaethol yn cystadlu ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad a Chwpan Rygbi'r Byd

# BWYD CYMREIG

Profiad

Rhowch gynnig ar wneud pice ar y maen traddodiadol drwy ddilyn y rysáit syml hon.

## Pice ar y Maen

**Cynhwysion:**

- 225g o flawd codi
- 110g o fenyn
- 85g o siwgr mân
- 50g o gyrens neu resins
- 1 wy
- Diferyn o laeth (os bydd angen)
- Pinsiad o nytmeg neu sinamon (dewisol)
- Siwgr ychwanegol i'w ysgeintio

**Cyfarwyddiadau:**

1. Cymysgwch y blawd a'r menyn nes bod y cymysgedd yn debyg i friwsion bara
2. Trowch y siwgr a'r cyrens i mewn
3. Ychwanegwch yr wy wedi'i guro i ffurfio toes gwydn
4. Rholiwch y toes allan i drwch o tua 1/4 modfedd a thorrwch ef yn gylchoedd
5. Coginiwch y cylchoedd ar ridyll wedi'i gynhesu am 2-3 munud yr un nes eu bod yn euraid
6. Ysgeintiwch siwgr drostynt tra bônt yn gynnes










# GWYBODAETH YMARFEROL

## TEITHIO

- Mae **trenau'n** cysylltu dinasoedd a threfi mawr Cymru, ac mae gwasanaethau i Lundain yn cymryd tua dwy awr o Gaerdydd.
- Mae **gwasanaethau bysiau rheolaidd** ar gael. Edrychwch ar yr amserlenni lleol am fanylion.

## TYWYDD

Mae'r tywydd yng Nghymru yn enwog am fod yn gyfnewidiol! Yn ystod mis Tachwedd pan fydd WorldSkills yn digwydd, gallwch ddisgwyl tymereddau rhwng [9-11°C], gyda phosibilrwydd o law. Rydyn ni'n argymell dod â'r canlynol gyda chi:

- Siaced ddiddos
- Haenau ar gyfer amodau cyfnewidiol
- Esgidiau cerdded cyfforddus


## ARIAN

Caiff y rhan fwyaf o'r prif gardiau credyd eu derbyn yn eang, ac mae peiriannau ATM ar gael yn rhwydd.

## GWYBODAETH ARGYFWNG

- Gwasanaethau brys (heddlu, ambiwlans, gwasanaeth tân): **999**
- Cyngor meddygol mewn achosion nad ydynt yn rhai brys: **111**









Castell Coch

worldskillsuk Cymru

Ysbrydoli Sgiliau
Inspiring Skills

Llywodraeth Cymru
Welsh Government